Casnewydd Catchup

Issue number 10
Summer Term 2016

Hwyl yn y Ffair

Cynhaliwyd Ffair Haf lwyddiannus ar nos Iau y 30ain o Fehefin. Roedd y plant wedi bod wrthi drwy'r wythnos yn creu pethau i werthu yn y Ffair ac roedd y côr wedi canu'n hyfryd. Codwyd £1942.50 ar gyfer ein hysgol ni! Gwych! Diolch i Banc Barclays am roi cyfraniad £1 am £1. Diolch i bawb wnaeth helpu i sicrhau ei fod yn Ffair lwyddiannus unwaith eto.

Meithrin

Rydyn ni wedi dwli ar en prosiect 'Anifeiliai'd tymor hyn. Dysgon ni am gylch bywyd y broga a phili pala, anifeiliad y jyngl a chawson ni ymweliad gan Chris o'i Sioe 'Nearly Wild'. Daeth Chris ag amrywiaeth o anifeiliaid i ni ddal a dysgodd e nifer o ffeothiau diddorol am yr anifeiliaid.

Io ho ho!

Derbyn

Cafodd y Derbyn eu hymosod gan fôr ladron! Cafon nhw llythyr i ddweud fod trysor wedi eu cuddio yn yr ysgol yn rhywle felly roedd yn rhaid iddyn nhw fynd ar helfa drysor trwy'r ysgol, y waun wyllt a'r ardal ganol gan ddilyn cliwiau ac yn y diwedd fe ddaethon nhw o hyd i gust llawn arian siocled yn y tywod! Roedd llawer o dasgiau i'w cwblhau fel adeiladu llong môr ladron, ysgrifennu llythyr mewn potel, peintio parot, disgrifio môr leidr, sgwrs ffon rhwng capten y llong a môr leidr, creu map ac addurno trysor. Llawer o hwyl a sbri!

Blaidd Bendigedig

Blwyddyn 1

Oeddech chi'n gwybod nad yw pob blaidd yn gas?

Yn ystod ein prosiect 'pethau byw' darllenon ni stori'r 'Tri Mochyn Bach!' Roedd rhaid i ni gwblhau nifer o weithgareddau hwylus megis sioe bypedau, creu stori sain i adlewyrchu teimladau a phersonoliaeth y cymeriadau a'r gadair goch. Yn ogystal â hyn fe ddarganfyddon ni fod rhai moch yn greulon ar ôl i ni ddarllen stori'r 'Tri Mochyn Bach Cas a'r Blaidd Mawr Caredig!'

Pethau Byw

Blwyddyn 2

A wyddoch chi fod blodau yn casáu finegr a dŵr hallt? A wyddoch chi fod lliw bwyd yn gallu newid lliw petalau blodau?

Dyna beth ddarganfu blwyddyn 2 yn ystod ein harbrawf i weld yr effaith mae amrywiaeth o hylif yn cael ar flodau. Roedd e'n sioc i weld bod blodau yn hoffi lemonêd!

Fe aethon ni i wylio adar ac ymchwilio mewn i beledau tylluan. Yn dilyn hyn, fe ddylunion ni bwydlen addas i dylluan. Cwstard gyda chacen llygoden maes oedd un o'n ffefrynnau.

Hefyd, cafodd y plant eu hysbrydoli gan flodau haul Vincent Van Gogh ac fe aethon ni ati i efelychu ei waith.

Blwyddyn 3

Dŵr, dŵr, dŵr.
Rydyn ni wedi bod yn edrych ar fywyd natur a bywyd y pwll dŵr. Rydyn wedi dipio dŵr ym mhwll dŵr yr ysgol ac wedi edrych ar amrywiaeth o gynefinoedd o amgylch yr ysgol. Yn ogystal rydyn wedi creu pyllau dŵr bach ein hyn. Yn ein gwersi Llythrennedd rydyn wedi edrych ar lyfr Bog Baby ac wedi creu creadur dychmygol ein hunain ar gyfer y pwll dŵr. Rydyn yn edrych ymlaen at ein ymweliad i'r Gwlyptiroedd cyn diwedd y tymor.

I gyd-fynd gyda ein thema dŵr, yn ystod tymor yr haf aethon ni am wersi nofio am dair wythnos. Fe wnaeth pawb fwynhau a datblygu eu hyder a sgiliau nofio.

Blwyddyn 4 **Dirgelwch y Goedwig**

Cafodd Blwyddyn 4 diwrnod i gofio pan ddaeth Natalie Waller, Swyddog Bio-amrywiaeth y Cyngor, mewn i'r ysgol i wneud gweithgareddau'r goedwig. Buon nhw yn chwilio am bryfed ac yn ceisio adnabod y coed gwahanol gan ddefnyddio allwedd dail. Gweithiodd y plant mewn grwpiau bach er mwyn hybu'r sgil o weithio gydag eraill. Mwynheuon nhw mas draw!
Mae'r plant wedi darganfod ystlum bach wedi cwympo mewn nyth aderyn wrth ddarllen Serenola.

Blwyddyn 5

Ymweliad i Ganolfan Trin Dŵr Cilfynydd

Aeth Blwyddyn 5 i Ganolfan Trin Dŵr yng Nghilfynydd ar ddechrau Tymor yr Haf. Ymchwilion ni i lefelau llygredd yn yr Afon Taf gan arsylwi ar y trychfilod amrywiol yn yr afon. Yn ail, defnyddion ni ein sgiliau mathemateg i fesur cyflymder yr afon yn y canol ac ar yr ochr. Cawson ni hwyl yn dysgu am sut mae' hinsawdd y byd yn newid a sut y gallwn ni newid ein cymuned i fod yn lle gwell i fyw. Fe gafon ni llawer o hwyl gyda'r hylif yn tasgu ym mhobman wrth i ni gydweithio i symud dŵr gyda'n gilydd.

PARTI'R 40au!

Blwyddyn 6
Aeth Blwyddyn 6 ar daith yn ôl i adeg yr Ail Ryfel Byd a chawson ni barti 40au ar gaeau'r ysgol. Cafwyd amser arbennig gan bawb ac fe wenodd yr haul trwy'r prynhawn. Roedd y plant(a'r athrawon!) wedi bod yn brysur yn paratoi bwyd or' 40au trwy'r bore. Brechdanau amrywiol., cacennau moron, stwnsh corn-bîff a chrymbl riwbob (riwbob o ardd yr ysgol). Mwynheuwyd amrywiaeth o weithgareddau megis ras sach, ras wy a llwy a chafwyd lluniau yn y bwth lluniau. Daeth rhieni a ffrindiau yr ysgol i fwynhau yn yr hwyl gyda'r plant. Yr unig peth a ddaeth i ddifetha'r hwyl oedd y seiren cyrch awyr a oedd yn bloeddio pob hyn a hyn. Erbyn diwedd y dydd roedd y plant (â'r oedolion) yn gallu darganfod cysgod mewn eiliadau, nifer yn y gysgodfan Anderson.

Hwyl Fawr Blwyddyn 6!

Byddwn yn drist iawn i ffarwelio â Blwyddyn 6 a dymunwn bob lwc i bawb wrth iddynt symud i Ysgol Gyfun Gwent Iscoed, Ysgol Gyfun Gwynllyw ac Ysgol Dyffryn. Mae rhai disgyblion wedi paratoi eu hatgofion o'u hamser yn Ysgol Gymraeg Casnewydd yn arbennig ar gyfer ein rhifyn olaf.

Rydw i'n gallu cofio Miss Thomas yn defnyddio Berocca yn y wers Gwyddoniaeth ac roedd hi wedi rhoi e ar y silff i fod yn ddiogel ond roedd wedi cwympo drosti ac roedd hi'n socan!! (Amelia Fettis)

Rwy'n cofio'r un peth! Roedd yn ddoniol (Laura Atwell)

Rwy'n cofio pan oedd Mr Taylor wedi gwisgo i fyny fel Banana Man ym Mlwyddyn 5. (Rebecca O'Hara)

Rwy'n cofio mynd i Llangrannog a mwynhau gyda fy ffrindiau (Ethan Clarke)

Rwy'n cofio siarad Cymraeg am y tro cyntaf (Kyle Gould)

Rwy'n cofio diwrnod olaf Kiahren yn yr ysgol. Rwy'n cofio Carys a fi yn crio!! (Lauren Evans)

Rwy'n cofio pan oedd Elin Gray wedi amseru fi i weld faint o amser oedd e'n cymryd i mi roi rhywbeth yn y bin ac roeddwn i wedi cwympo drosodd ac roedd Elin yn chwerthin! (Rhianwen Lewis)

Rwy'n cofio chwarae ar y drymiau yn y Meithrin ac roedd rhwyun yn bwrw nhw'n rhy galed! (Declan Moses)

Roeddwn i yn bwyta a dechreuodd Mr Taylor siarad i mi. Doeddwn i ddim yn gwybod beth i wneud a dechruais driblan a dwedodd Mr Taylor "Jiw Elin Gray , driblan bob man!!" (Elin Gray)

Rydw i'n cofio bod mewn band gyda Callum, Jon ac Euan. Fi oedd yn canu ac yr unig geiriau o unrhyw gân pop oeddwn yn gwybod oedd "We will rock you!" Roedd Euan ar y drymiau, Callum ar y gitar a Jon ar y piano!!
(Lola Harmes)

Rwy'n cofio dysgu Mrs Parry sut i ddefnyddio Excell!!! (William Symonds)

Rwy'n cofio mynd i Jambori Martin Geraint ym mlwyddyn 2. Roeddwn i'n hoffi'r caneuon ac roedd yn hwyl. Ond doedd dim digon o ddiodydd ganddyn nhw i bawb!! (Cailin Bartlett)

Rwy'n cofio pan oedd William wedi curo Miss Leyshon yn Mathemateg ac roedd Miss Leyshon ar gyfrifiannell (Elijah Spring)

Diwrnod Euro

Roedd cyffro mawr yn yr ysgol ar ddiwrnod y gêm fawr rhwng Cymru a Lloegr. Cynllunion ni grysau T ac roedd gwobrau i'r rhai gorau ym mhob dosbarth. Cynhaliwyd gweithgareddau pêl droed yn ystod y dydd ac roedd y plant wrth eu boddau yn cefnogi Cymru wrth wylio'r gêm yn ystod y prynhawn. Diolch yn fawr am eich cyfaniadau tuag at Ganolfan Serennu yng Nghasnewydd.

Dŵr Cymru

Daeth cynrychiolwyr o Dŵr Cymru i'r ysgol i siarad yn ystod Gwasanaeth am ffyrdd i achub dŵr. Yna cafodd Blwyddyn 5 y cyfle i arbrofi ffyrdd i arbed dŵr yn eu dosbarthiadau.

1940au a'r 1980au

Yn ystod y tymor rydyn ni ym mlwyddyn 6 wedi bod yn astudio cyfnod yr 1940'au a'r 1980'au. Fel rhan o'r 1940'au rydyn ni wedi bod yn dysgu am hanes y cyfnod, Y Blitz yn Abertawe a'r plant yn ymgilio. Cawsom ni ddiwrnod yn dathlu y 40au lle roedd pawb yn gwisgo dillad arbennig fel ymgilwyr, merched y tir a milwyr y rhyfel.

Ar gyfer diwrnod yr 80'au roedd pawb yn llawn lliw ac yn llachar dros ben! Mwynheuon ni ddysgu am y Wal Berlin a chawson ni gyfle i brofi bwyyd ym Merlin adeg y wal Berlin. Dangoson ni empathi tuag at fywyd yn y cyfnod a dathlon ni pan ddaeth y wal i lawr!

Ysgol Gwent Iscoed

Cynhaliwyd diwrnod arall o bontio Llwyddiannus i blant Blwyddyn 6 Ysgol Gymraeg Casnewydd, Ysgol Ifor Hael and Ysgol y Ffin. Cafodd y disgybion amser gwych yn cymeryd rhan mewn. gemau awyr agored ar gae'r ysgol.

Diwrnodau Gyrfaoedd

Daeth nifer o ymwelwyr i'r ysgol ar y 23ain a 24 ain o Fehefin i siarad i'r plant am eu swyddi. Roedd y plant wir wedi mwynhau clywed Am waith y dynion tân, RSPCA, menyw trin gwallt, busnes timber,Coleg Gwent,hyfforddwr chwaraeon a chogydd. Diolch i bawb wnaeth rhoi eu hamseri ddod i siarad â'r plant i sicrhau fod y diwrnodau hyn yn rhai llwyddiannus.

Cornel y Campau

Cornel y Campau

Diolch o galon i Mr Rhys Jones am ymuno gyda ni yng Nghlwb Chwaraeon y Ddraig. Cawson ni brynhawn hyfryd yn yr heulwen yn ymarfer sawl strôc tenis. Chwarae teg i'r brodyr Burrows am ddangos eu dawn. Mae Mr Jones yn gyn-ddisgybl yn ysgol Gymraeg Casnewydd ac roedd e'n bleser i groesawu fe yn ôl i'r ysgol er iddo ddweud 'Mae'n teimlo llawer yn llai erbyn hyn'. Gobeithiwn fyddwn ni yn gallu ei groesawu e yn ôl yn y dyfodol.

Llongyfarchiadau i dîm criced wnaeth gystadlu yng Nghystadleuaeth Criced Ysgolion Casnewydd ym mis Mehefin . Dyma oedd y tro cyntaf i'r plant i chwarae yn y gystadleuaeth hon ac fe wnaeth pob aelod o'r tîm ennill clod i'r ysgol. Ennill un gêm a cholli tri oedd yr hanes. Er hyn, cawsom wledd o griced gyda Morgan, Declan a Callum yn traro'r bêl dros y ffin ar mwy nag un achlysur yn ogystal a Damari a Johan yn hedfan trwy'r awyr i ddal sawl pêl.

Unwaith eto, diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am drefnu'r Ffair a'r gweithgareddau trwy gydol y tymor, yn ogystal â chyllido argraffiad y papur hwn. Os hoffai unrhyw un ddod yn aelod o'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae ffurflenni cofrestru ar gael yn y swyddfa .. Cofiwch fod yr holl arian a godir yn mynd yn ôl i gefnogi eich plant a'u haddysg!